Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

Information Commissioner's Office

# Diogelwch ar-lein a diogelu data: datganiad ar y cyd gan Ofcom a'r ICO

25 Tachwedd 2022

# Crynodeb gweithredol

Fel y cyrff sy'n gyfrifol am reoleiddio diogelu data a diogelwch ar-lein yn y DU, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac Ofcom ill dau wedi ymrwymo i ddiogelu pobl ar-lein.

Rydym am weld gwasanaethau ar-lein yn gwneud mwy i gadw defnyddwyr yn ddiogel a gwarchod eu preifatrwydd. Yn 2021, dywedodd mwy na thri o bob pedwar o bobl dros 13 oed iddynt gael o leiaf un profiad niweidiol ar-lein yn y pedair wythnos flaenorol,[1] tra bod llai na thri o bob deg o bobl yn ymddiried mewn cwmnïau a sefydliadau sy'n storio eu gwybodaeth bersonol.[2]

Rydym am weld sefydliadau'n dylunio eu gwasanaethau ar-lein gyda phreifatrwydd a diogelwch mewn golwg. Mae synergeddau cryfion rhwng yr amcanion hyn: Er enghraifft, gall gwasanaethau ar-lein sy'n methu â gwarchod gwybodaeth bersonol defnyddwyr eu gadael yn agored i gael eu hadnabod neu eu targedu, i'w lleoliad gael ei dracio, neu iddynt dderbyn cyfathrebiadau niweidiol.

Rydym yn cydnabod bod yna densiynau weithiau rhwng diogelwch a phreifatrwydd. Er enghraifft, er mwyn gwarchod diogelwch defnyddwyr ar-lein, efallai y bydd angen i wasanaethau gasglu rhagor o wybodaeth am eu defnyddwyr, y cynnwys maen nhw'n ei weld a'u hymddygiad ar-lein. Er mwyn gwarchod preifatrwydd defnyddwyr, gall, a dylai, gwasanaethau gyfyngu'r data a gesglir i'r hyn sy'n gymesur ac yn angenrheidiol.

Ystyriwch sicrwydd oedran. Gall gwasanaethau ar-lein ddefnyddio sicrwydd oedran i adnabod plant er mwyn cynnal eu preifatrwydd a'u diogelwch, megis sicrhau bod geoleoliad wedi'i ddiffodd neu na all plant gyrchu cynnwys niweidiol. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio hyn fel rhagdybiaeth ar gyfer tracio arferion ar-lein defnyddwyr yn ormodol: dylid cyfyngu ar gasglu'r fath ddata i'r hyn sy'n angenrheidiol i ddosbarthu defnyddiwr yn gywir fel plentyn.

Ar ôl i'r Mesur Diogelwch Ar-lein basio, bydd angen i'r gwasanaethau ar-lein perthnasol gydymffurfio â rheolau diogelwch ar-lein a diogelu data perthnasol. Ni all fod lle i wasanaethau ddadlau na allen nhw gydymffurfio â gofynion diogelwch ar-lein newydd, oherwydd rheolau diogelu data, neu i'r gwrthwyneb. Byddwn yn gweithio law yn llaw i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau ar-lein yn cael eu gwarchod.

Mae'r ICO ac Ofcom wedi cydweithio'n effeithiol ers blynyddoedd lawer. Rydym yn rhannu egwyddorion tebyg yn ein hymagwedd at reoleiddio: tryloywder, atebolrwydd, cymesuredd a chysondeb, ac ymrwymiad i gymryd camau pan fydd ei angen fwyaf. Trwy alinio ein hymagweddau, credwn y gallwn ddiogelu pobl yn fwy effeithiol ac ar yr un pryd lleihau'r gost o gydymffurfio â'n cyfundrefnau.

Mae ein gwaith ar y cyd wedi dwysau ers 2020, wrth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth lansio'r cod Plant ac Ofcom ymgymryd â phwerau i reoleiddio llwyfannau rhannu fideos (VSP) yn y DU. Bu i ni gydweithio'n agos i sicrhau bod ein harweiniad priodol yn cydweddu, gan ei gwneud hi'n haws i VSPs gydymffurfio â'r ddwy gyfundrefn. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd yn agos i rannu gwybodaeth a thaclo diffyg cydymffurfio.

[1] Y Traciwr Profiadau Ar-lein (2021/22): Adroddiad cryno.
[2] Cynllun Strategol Hawliau Gwybodaeth: Ymddiriedaeth a Hyder Mehefin 2021.

Bu i ni gydsefydlu'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yr un flwyddyn, ac ymunodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi hynny. Trwy'r Fforwm rydym wedi gweithio ar y cyd i agweddau ymchwil at offer megis sicrwydd oedran, alinio safbwyntiau ar reoleiddio prosesu algorithmig, ac archwilio datblygiadau'r dyfodol fel y metafydysawd.

Mae ein partneriaeth yn awr yn mynd cam ymhellach, gan ddisgwyl y bydd Ofcom yn ymgymryd â dyletswyddau newydd yn 2023 o dan y Mesur Diogelwch Ar-lein. Mae gennym ddau uchelgais:

1. Rydym am i **ddefnyddwyr gwasanaethau ar-lein** fod yn hyderus y bydd eu diogelwch a'u preifatrwydd yn cael eu cynnal ac y byddwn yn cymryd camau prydlon ac effeithiol pan fydd darparwyr yn methu yn eu rhwymedigaethau.

2. Rydym am **i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein** o bob maint gydymffurfio â'u rhwymedigaethau a pharhau i arloesi a thyfu, wedi'u cefnogi gan eglurder o ran rheoleiddio ac rhyddid o faich gormodol.

I wneud hyn, byddwn ni'n mwyafu cydlyniad rhwng y cyfundrefnau diogelu data a diogelwch ar-lein ac yn cydweithio i hybu cydymffurfiaeth â nhw:

- **Mwyafu cydlyniad**: Byddwn ni'n sicrhau bod ein polisïau'n gweddu i ofynion ac arweiniad rheoleiddio ein gilydd ac yn cymryd persbectif y naill a'r llall i ystyriaeth. Byddwn yn chwilio am atebion sy'n gwella diogelwch defnyddwyr ac yn cynnal eu preifatrwydd. Pan fydd tensiynau rhwng amcanion preifatrwydd a diogelwch, byddwn yn darparu eglurder ar sut y gellir sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddwy gyfundrefn.

Bydd **Ofcom** yn paratoi codau ymarfer ac arweiniad ar gyfer gwasanaethau ar-lein ar gydymffurfiaeth â'r gyfundrefn diogelwch ar-lein ac yn ymgynghori â'r **ICO**, ymysg eraill, wrth baratoi'r rhain.

Bydd yr **ICO** yn paratoi arweiniad ar ddisgwyliadau o ran diogelu data ar gyfer gwasanaethau ar-lein gan ddefnyddio technolegau diogelwch (e.e. sicrwydd oedran, cymedroli cynnwys) ac yn ymgynghori ag **Ofcom**, ymysg eraill, wrth baratoi'r rhain.

- **Hybu cydymffurfiaeth**: Byddwn ni'n gweithio ar y cyd i gefnogi'r diwydiant i gydymffurfio â gofynion diogelwch a diogelu data ar-lein, gyda phwyslais penodol ar gefnogi arloeswyr i ffynnu a busnesau bach i dyfu. Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd fel y bo angen i gymryd camau yn erbyn gwasanaethau nad ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau, yn rhannu gwybodaeth a deallusrwydd fel y bo'n briodol ac yn cydlynu ymagweddau at gydymffurfio a gorfodi.

Mae'r datganiad ar y cyd hwn yn nodi mewn mwy o fanylder sut y byddwn yn cydweithio. Byddwn yn ailddatgan ein cydweithrediad trwy Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ei newydd wedd, y byddwn yn

ei ddiweddaru y flwyddyn nesaf yng ngoleuni cyfrifoldebau newydd Ofcom o dan y Mesur Diogelwch Ar-lein.